

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** Adolygu rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru

**DYDDIAD** 14 Chwefror 2014

**GAN** Jeff Cuthbert, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Crewyd swydd Comisiynydd Plant Cymru yn 2001 i ddiogelu a hybu hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, a hi oedd y swydd gyntaf o'r fath yn y Deyrnas Unedig.

Yn fwy diweddar, mae'r Comisiynydd Plant wedi datgan yn gyhoeddus fod angen adolygiad annibynnol o'i rôl a'i swyddogaethau. Yn fy marn i, mae wedi cyflwyno achos cryf. Rwyf felly wedi cytuno i gomisiynu adolygiad annibynnol llawn o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru.

Mae manylion ac amserlen yr adolygiad yn cael eu datblygu, ond bydd yr egwyddorion allweddol fel a ganlyn:

- Bwriad yr adolygiad yw sicrhau bod rôl Comisiynydd Plant Cymru mor glir ac mor effeithiol â phosibl, er lles plant a phobl ifanc.
- Bydd yr adolygiad yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, gyda golwg ar gynnig argymhellion i Weinidogion Cymru eu hystyried.
- Ni fydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar drefniadau gweithredol y swyddfa o ddydd i ddydd, ond gall fod angen ystyried yr agweddau hyn fel rhan o'r broses.
- Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried yr elfen ryngwladol, yng nghyswllt pobl eraill sy'n Gomisiynwyr plant a phobl ifanc ac Ombwdsmyrn.

Gadewch i mi fod yn eglur nad y Comisiynydd presennol yw testun yr adolygiad. Rwy'n cytuno gyda Keith Towler ei bod hi'n bryd i ni symud ymlaen gyda hyn.

Gyda golwg ar adeiladu ar waith rhagorol y Comisiynydd Plant presennol, bydd yr adolygiad yn cryfhau ymhellach sut y gwelwyd Cymru fel gwlad sydd ar y blaen yng nghyswllt Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Ochr yn ochr â gweithredu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd Plant yn elfen hollbwysig arall yn y broses o weithredu a chynnal hawliau plant a phobl ifanc yn effeithiol yng Nghymru.

Yn ystod yr wythnosau sy'n dod byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant ac eraill, gan gynnwys Aelodau Cynulliad, i ddatblygu manylion yr adolygiad a fydd yn arwain at argymhellion annibynnol ynghylch sut gall y Comisiynydd Plant ddiogelu a hybu hawliau plant a phobl ifanc ledled Cymru am flynyddoedd i ddod.

Byddaf yn rhoi diweddariad i'r Aelodau yn y man.